Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Rhayader Under 5s
# Neuadd Dolgerddon
# Lon Dywyll
# Rhaeadr
# Powys
# LD6 5DA

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.gov.uk
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2016**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Rhayader Under 5s |
| Categori'r gofal a ddarperir | Cylch chwarae sesiynol |
| Person(au) Cofrestredig | Dd/B |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kelly Walters |
| Person â gofal | Emma Richards |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer eu haddysg | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9am tan 12pm dydd Llun i ddydd Iau |
| Iaith y lleoliad | Saesneg gyda rhywfaint o ddefnydd ar y Gymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Ionawr 2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Medi 2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 24 a 25 Tachwedd 2015 |

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae bron pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel iaith y cartref. Nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar adeg yr arolygiad.

Caiff y cylch chwarae ei redeg gan dri aelod staff parhaol a phedwar aelod staff dros dro. Fe wnaeth y person â gofal ymgymryd â'i swydd ym Medi 2011.

## Crynodeb o'r Adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Rhoesom wybod i'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol, y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw:**

- 28 (2)(b)(ii) – Addasrwydd Gweithwyr. Nid yw ffeiliau staff yn dal gwybodaeth na dogfennau llawn a boddhaol fel y bo'n ofynnol yn ôl y rheoliad hwn.
- 29 (3)(a) – Cyflogaeth Staff. Nid oes goruchwylio na gwerthuso priodol yn cael eu cyflawni.
- 31 Atodlen 4 2(1)(b) – Digwyddiadau i'w hysbysu i Weinidogion Cymru. Nid oedd AGGCC wedi cael gwybod am newidiadau i'r lleoliad.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau Cymraeg plant

A2 Defnyddio asesiadau'n effeithiol i gynllunio camau nesaf priodol, gan sicrhau bod yr holl blant yn cyflawni'r gorau y gallant

A3 Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn bodloni gofynion ac yn cael eu gweithredu'n llawn

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a'r argymhellion a nodwyd. Bydd Estyn ac AGGCC yn monitro cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn cyfathrebu'n effeithiol drwy gydol y sesiwn. Gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau hyderus am eu chwarae a'u gweithgareddau. Gwyddant fod ymarferwyr yn deall eu dymuniadau ac y byddant yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, roedd un plentyn eisiau golchi ei ddwylo ar ôl chwarae yn y blwch tywod ac ymatebodd ymarferwyr ar unwaith. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus ac yn rhyngweithio'n hapus â'i gilydd a'r ymarferwyr. Gofynnant gwestiynau ac ymatebant yn dda yn ystod amser cylch, yn Gymraeg a Saesneg. Pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ac yn symud yn ddirwystr o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad am eu chwarae ac yn rhannu eu syniadau, er enghraifft pan maent yn trafod gwneud cawl yn y gegin fwd.

Mae gan bron pob un o'r plant berthynas dda â'r ymarferwyr. Maent yn mynd atynt yn hyderus i gael cysur a sicrwydd. Mae bron pob un o'r plant yn setlo'n gyflym ac yn canolbwyntio'n dda ar y gweithgareddau a gynigir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus ac wedi ymlacio yn y lleoliad, ac yn gwneud ffrindiau newydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Dilynant arferion y lleoliad heb ryw lawer o anogaeth gan oedolion ac maent yn ymateb i gyfarwyddiadau yn effeithiol, er enghraifft gwrando am eu henw cyn mynd i wisgo eu dillad awyr agored. Mae llawer o blant yn dechrau datblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a deall rheolau'r lleoliad, er enghraifft pam na ddylent redeg tu mewn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dysgu cydweithredu a chymryd eu tro yn briodol yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae bron pob un o'r plant, gan gynnwys y plant ieuengaf, yn canolbwyntio'n dda ar y tasgau a ddewiswyd ganddynt eu hunain.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Cyrhaeddant y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Yn ystod gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr, fel amser stori, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ac yn canolbwyntio'n dda. Fodd bynnag, mae ychydig o blant iau weithiau'n colli diddordeb mewn gweithgareddau grŵp cyfan. Mae llawer o blant yn ymfalchïo'n fawr yn eu gallu i gwblhau tasgau'n llwyddiannus, fel datrys sut i lanhau bwrdd magnetig eu hunain a gwisgo'u cotiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n fwyfwy annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn golchi eu dwylo heb ryw lawer o gymorth gan ymarferwyr ac mae llawer o blant hŷn yn rhoi eu pen a'u breichiau drwy'r tyllau yn eu ffedogau ar eu pen eu hunain. Gwelir lefel uchel o hunan-barch ymhlith bron pob un o'r plant ac maent yn awyddus i rannu'r hyn maent wedi ei ddysgu. Er enghraifft, fe wnaeth un plentyn ddatgan yn falch i'r grŵp ei fod yn gallu chwibanu. Mae bron pob un o'r plant yn dechrau dysgu amrywiaeth o fedrau sy'n hybu eu datblygiad holistig yn dda, gan gynnwys medrau hunangymorth. Maent yn greadigol ac yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau'n effeithiol, er enghraifft yn ystod chwarae dychmygus yn y swyddfa, lle'r ysgrifennodd blentyn lythyron at Siôn Corn.

| Dysgu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig) | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o’r plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Gwnânt gynnydd cryf iawn yn eu medrau cyfathrebu a’u medrau personol a chymdeithasol, gan ddefnyddio’r rhain yn dda wrth chwarae ac wrth ryngweithio ag oedolion.

Mae bron pob un o’r plant yn dda am fynegi eu hunain yn glir. Maent yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn effeithiol, er enghraifft pan ofynnir iddynt eistedd mewn cylch i ganu caneuon a rhigymau. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud marciau’n hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac mae llawer ohonynt yn ystyried eu hunain yn awduron, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyron at Siôn Corn. Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau’n annibynnol ac yn dilyn storïau sy’n cael eu darllen iddynt gyda diddordeb, gan ymateb yn briodol i gwestiynau ac ysgogiadau am yr hyn a allai ddigwydd nesaf.

Dengys bron pob un o’r plant ddiddordeb cynyddol mewn rhifau. Ymunant mewn canu caneuon a rhigymau rhif yn hapus ac mae llawer o blant yn cyfrifo gwrthrychau hyd at o leiaf saith ar eu pen eu hunain. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn briodol wrth chwarae, er enghraifft enwi cylchoedd a thrionglau wrth greu dyn eira o ewyn eillio.

Pan fyddant yn wynebu heriau, mae llawer o blant yn dyfalbarhau ac yn defnyddio adnoddau’n hyderus ac yn greadigol, er enghraifft defnyddio llwyau pren i gloddio yn yr ardal awyr agored. Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau gweithgareddau corfforol ac mae llawer ohonynt yn dangos synnwyr cydbwysedd da wrth wthio berfa lawn yn llwyddiannus. Defnyddiant offerynnau bychain gyda rheolaeth gynyddol, gan ddyfalbarhau’n dda wrth ddefnyddio prennau lolipop i dorri bananas yn sleisiau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgyfarwyddo â defnyddio technoleg yn eu chwarae; er enghraifft, defnyddiant y gyfrifiannell yn frwdfrydig yn yr ardal swyddfa. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i gwestiynau a chyfarchion syml yn Gymraeg yn ystod amserau grŵp. Adroddant y rhifau hyd at ddeg ac ymunant â chanu caneuon Cymraeg syml yn hapus. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’u medrau Cymraeg datblygol mewn cyd-destunau eraill, fel yn eu chwarae digymell.

| Gofal a datblygiad | Da |
|---|---|

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod diogelu’n cael blaenoriaeth uchel, gan amddiffyn iechyd a lles plant yn effeithiol gan fod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o’u rolau a’u cyfrifoldebau, ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer recriwtio diogel yn destun mân bryder. Maent yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu am bwysigrwydd ffordd iach o fyw trwy frwsio’u dannedd yn rheolaidd a chymryd rhan yn y cynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy. Mae’r drefn ddyddiol yn rhoi byrbryd iach o ffrwythau i blant a sawl cyfle gwerthfawr am awyr iach ac ymarfer corff. Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hylendid yn briodol, a chaiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo’n rheolaidd. Mae cymwysterau cymorth cyntaf perthnasol gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ac maent yn mynychu hyfforddiant diogelu priodol.

Caiff ymddygiad plant ei reoli'n dda gan bron pob un o'r ymarferwyr. Maent yn mabwysiadu dull cyson ac adeiladol, gan ganmol ymddygiad da ac esbonio disgwyliadau'n ofalus pan fydd angen annog y plant i ddilyn rheolau'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant unigol, gan addasu eu dull yn briodol.

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Maent yn deall ac yn bodloni anghenion dietegol a meddygol penodol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i anghenion plant ac yn rhoi cymorth sensitif ac addfwyn pan fydd ei angen. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd at ymarferwyr yn hyderus, er enghraifft i ofyn am gael mynd i'r tŷ bach neu i gael sgwrs. Mae'r lleoliad yn trin y plant fel unigolion ac yn hybu cydraddoldeb yn dda; fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i blant ddysgu am amrywiaeth ddiwylliannol yn fwy cyfyngedig.

Mae gweithdrefnau addas ar waith gan y lleoliad i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferydd arweiniol yn gweithredu'n effeithiol i nodi anghenion ychwanegol a sicrhau bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol. Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr, gan rannu gwybodaeth yn anffurfiol yn rheolaidd a chydweithio'n ddefnyddiol ag asiantaethau arbenigol. Mae systemau priodol ar waith ar gyfer gosod targedau ac adolygu'r cynnydd a wneir gan blant ag anghenion ychwanegol; fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r rhain yn gyson.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | Da |
|---|---|

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio llawer o brofiadau dysgu diddorol a difyr y mae'r plant yn eu mwynhau, gan gwmpasu holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol dros gyfnod. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae'r ymarferydd arweiniol yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn dda i gynllunio dilyniant mewn dysgu plant.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau gwerth chweil sy'n helpu plant i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol dan do ac yn yr awyr agored. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i fentro a rhoi cynnig ar brofiadau newydd, er enghraifft pan fyddant yn arbrofi â dŵr glaw yn y gegin fwd. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol, fel datblygu eu cryfder a'u synnwyr cydbwysedd a dysgu sut i ddefnyddio pensiliau a beiros yn fedrus. Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad creadigol plant yn dda. Darparant ardal gerddoriaeth gyda digon o offerynnau a chyfleoedd rheolaidd i baentio, tynnu lluniau ac arbrofi â thoes cartref.

Mae'r lleoliad yn cynnig llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl plant trwy chwarae a gweithgareddau â ffocws. Er enghraifft, taniodd ymweliad diweddar â chyflenwr lleol offer swyddfa lawer iawn o ddiddordeb mewn gwneud marciau ac ysgrifennu llythyron, ynghyd â chefnogi chwarae dychmygus plant. Mae ymarferwyr yn annog plant i feddwl drostynt eu hunain ac i ddatblygu dealltwriaeth dda o ddilyniannau, er enghraifft pan fyddant yn gofyn beth sy'n digwydd nesaf mewn storïau. Mae'r lleoliad yn defnyddio llawer o adnoddau i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant yn briodol.

Mae ymarferwyr yn cynnwys cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn eu cynllunio ac yn canolbwyntio'n dda ar hyn yn ystod amser cylch. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad cystal o ran hybu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell trwy gydol y sesiwn. Mae ymarferwyr yn dathlu diwylliant Cymru yn briodol yn ystod digwyddiadau, fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r lleoliad yn cynnig llawer o brofiadau diddorol i ddatblygu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas yn ystod ymweliadau pwrpasol yn yr ardal leol, a datblygu ymdeimlad o chwilfrydedd am eu bywyd a'u credoau eu hunain. Mae'r lleoliad yn hybu ymdeimlad cryf o ryfeddod trwy archwilio'r ardal awyr agored, lle y mae plant yn mwynhau chwilio am fwydod a bwystfilod bach ym mhob tywydd. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd addas i ailgylchu bwyd, papur a phlastig; fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer hybu cynaliadwyedd.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl blant yn y rhan fwyaf o feysydd, gan ddisgwyl iddynt gyfathrebu'n effeithiol, ymddwyn yn dda a datblygu'n ddysgwyr annibynnol yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol ac maent yn cynllunio ar gyfer hyn yn llwyddiannus. Darparant amgylchedd ysgogol a heriol i'r plant, dan do ac yn yr awyr agored. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn effeithiol i annog plant i feddwl drostynt eu hunain ac yn ymyrryd yn sensitif ar y cyfan i gefnogi dysgu'r plant wrth iddynt chwarae.

Mae ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac mae gweithwyr allweddol yn cofnodi cyflawniadau plant unigol yn gywir mewn proffiliau unigol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau yn systematig i'w helpu i nodi'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Oherwydd hyn, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o her i bob plentyn gyflawni cystal ag y gall. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni ynghylch yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy rannu gwybodaeth yn anffurfiol ar ddiwedd sesiynau a thrwy roi gwybodaeth ddefnyddiol am themâu a phynciau ar yr hysbysfwrdd.

| **Yr Amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel tu mewn a thu allan. Mae'r person â gofal yn cynnal asesiadau risg addas, gan adolygu'r rhain yn rheolaidd a sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu'n briodol. Mae ymarferwyr yn cynnal gwiriadau rheolaidd o beryglon a diogelwch, ac yn arddangos y rhain yn briodol i bawb eu gweld. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn effeithiol tu mewn a thu allan, gan eu cadw'n ddiogel a hybu eu lles yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau addas gan y lleoliad i hybu arferion hylendid da. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwisgo dillad amddiffynnol addas ac yn sicrhau eu bod yn cadw ardaloedd bwyta yn lân.

Mae arweinwyr yn cynnal a chadw'r safle yn dda. Mae'r amgylchedd dan do yn gyfforddus, yn ysgogol ac yn addas i blant, gyda digon o olau naturiol. Mae'r cynllun a'r gosodiad yn hybu dewis rhydd ac yn cefnogi annibyniaeth plant yn dda. Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau mewn cypyrddau lefel isel a blychau o fewn cyrraedd hawdd. Mae arddangosiadau o waith celf y plant a ffotograffau o'r gymuned leol ar hyd a lled y lleoliad yn creu amgylchedd croesawgar.

Mae adnoddau'r lleoliad, gan gynnwys dodrefn, offer a theganau, mewn cyflwr da ac yn briodol i oedran y plant. Ar y cyfan, mae'r dewis helaeth o eitemau a deunyddiau amrywiol yn hybu datblygiad plant yn dda ac yn datblygu eu chwilfrydedd. Yn achlysurol iawn, mae arweinwyr yn darparu gormod o adnoddau, sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant wneud y dewisiadau mwyaf priodol a thrin adnoddau gyda pharch bob amser. Er nad yw'n bosibl mynd yn uniongyrchol o'r lleoliad i'r ardal awyr agored, mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddysgu yn yr awyr agored. Darparant ddewis da o offer chwarae yn yr awyr agored sy'n ategu dysgu plant yn dda, fel y gegin fwd boblogaidd, sy'n annog chwarae dychmygus gwerthfawr.

| | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Digonol |

Mae'r person â gofal yn ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd da i'r holl blant, mewn amgylchedd ysgogol. Mae wedi creu ethos hapus yn y lleoliad ac mae'n cyfleu ei weledigaeth yn dda. Mae'n cynnwys ymarferwyr ym mhob agwedd ar waith y lleoliad ac, o ganlyniad, maent yn cyfrannu syniadau defnyddiol, yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gweithio'n adeiladol gyda'r plant. Mae systemau effeithiol ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r unigolyn cyfrifol ac i swyddogion y pwyllgor am waith y lleoliad. Er bod y lleoliad yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, nid oes gweithdrefnau digon trylwyr ar waith gan arweinwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r rheoliadau bob amser.

Ar y cyfan, mae diwylliant cadarnhaol o welliant parhaus yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn croesawu syniadau newydd, fel datblygu technegau holi effeithiol, ac maent yn gweithredu'n adeiladol ar sail cyngor athro cyswllt yr awdurdod lleol. Gall y lleoliad gyfeirio at welliannau diweddar yn ei arfer sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant, fel datblygu'r ardal awyr agored a'r ardal swyddfa tu mewn yn ddiweddar. Mae systemau hunanarfarnu'r lleoliad yn datblygu'n briodol. Mae'r person â gofal yn ystyried barn ymarferwyr a rhieni'n dda trwy holiaduron blynyddol ac mae'n ceisio barn y plant yn anffurfiol. Er bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad blaenorol Estyn, nid yw wedi mynd i'r afael yn llwyr â'r holl faterion a amlygwyd yn arolygiad AGGCC yn Ionawr 2015.

Mae'r person â gofal yn sicrhau bod nifer digonol o ymarferwyr sydd wedi cymhwyso'n briodol yn gweithio yn y lleoliad ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau parhad mewn gofal ac i fodloni anghenion y plant. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau i sicrhau recriwtio diogel yn ddigon cadarn ar y cyfan ac nid yw ffeiliau staff yn hollol gyfredol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant perthnasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod yr holl ymarferwyr yn ymwybodol iawn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn trafod arferion gweithio yn anffurfiol, nid yw'r lleoliad yn eu goruchwylio'n rheolaidd nac yn cynnal gwerthusiadau blynyddol i hybu datblygiad staff.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned leol, sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r plant a'u dysgu. Mae ymarferwyr yn rhoi digon o wybodaeth i rieni am themâu a digwyddiadau'r lleoliad trwy gylchlythyron, cyfryngau cymdeithasol a'r hysbysfwrdd i rieni, yn ogystal â darparu pecyn croeso defnyddiol.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, gydag ymweliadau addysgol rheolaidd â siopau a'r llyfrgell, ac ymweliadau i'r lleoliad gan fudiadau lleol, fel yr heddlu.  Bu gan y lleoliad gysylltiadau â'r ysgol leol ers tro ac mae'n gweithio'n dda gyda gweithwyr proffesiynol eraill a mudiadau sy'n cefnogi gofal plant.  Er enghraifft, yn ddiweddar, sicrhaodd y lleoliad gyllid ar gyfer anghenion ychwanegol, a arweiniodd at gymorth gwell mewn dau leoliad gwahanol.

# Atodiad 1

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dynodi Dd/B.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 11 | 7<br>64%<br>- | 4<br>36%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 11 | 8<br>73%<br>- | 3<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 11 | 10<br>91%<br>- | 1<br>9%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p’un ai i ddefnyddio’r lleoliad. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 10<br>91%<br>- | 1<br>9%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 7 | 4<br>57%<br>- | 3<br>43%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 4 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy’n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| My child is making good progress at the setting. | 11 | 8<br>73%<br>- | 3<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Care is good. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae’r gofal yn dda. |
| Teaching is good. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 8<br>73%<br>- | 3<br>27%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 11 | 10<br>91%<br>- | 1<br>9%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 7<br>64%<br>- | 4<br>36%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 7<br>64%<br>- | 4<br>36%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 11 | 7<br>64%<br>- | 4<br>36%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 5<br>50%<br>- | 5<br>50%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 11 | 9<br>82%<br>- | 2<br>18%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

# Atodiad 2

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi'i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i'r plentyn a bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad. |